Taflen Ffeithiau Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Taflen ffeithiau yw hon ynghylch cyllid ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Dylid ei darllen ar y cyd â'n taflen wybodaeth gyffredinol ynghylch ein gwasanaeth.

Gallai pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, neu'n derbyn gofal gartref fod â hawl i dderbyn cyllid ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG i gwrdd â chostau eu hanghenion gofal os yw eu hanghenion gofal iechyd corfforol a/neu feddyliol yn cwrdd â'r meini prawf cymhwyster a bennwyd gan y Bwrdd Iechyd lleol perthnasol. Dylid gwneud pob cais am gyllid yn y lle cyntaf i Fyrddau Iechyd, a bydd angen iddynt ystyried anghenion gofal pob person yn fanwl er mwyn penderfynu ai gofal iechyd yw eu 'hangen sylfaenol'. Os bydd 'angen gofal iechyd sylfaenol' yn bodoli, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwrdd â chostau gofal y person hwnnw a/neu wneud trefniadau priodol ar gyfer cwrdd â'u hanghenion gofal. Nid oes prawf modd ar gyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Gallwch ofyn i'ch Bwrdd Iechyd lleol asesu anghenion y person sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd a/neu ofyn am asesiad ôl-weithredol o anghenion gofal yn y gorffennol. Fodd bynnag, ni all Byrddau Iechyd bellach ystyried ceisiadau newydd am gyllid y GIG yn ôl-weithredol ond am gyfnodau o 1 Ebrill 2003 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae galw mawr yng Nghymru am asesiadau ac adolygiadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae hyn yn arbennig o wir am hawliadau ôl-weithredol, lle y gallai'r galw ar Fyrddau Iechyd a chymhlethdod llawer o hawliadau, olygu y bydd yn rhaid i chi aros i'ch cais gael ei ystyried yn llawn.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Os ydych chi o'r farn fod penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd i wrthod Gofal Iechyd Parhaus y GIG i chi, eich perthynas neu berson yr ydych yn gofalu amdano, yn benderfyniad diffygiol, efallai y gallai'r Ombwdsmon eich helpu. Fel arfer gall edrych ar eich cwyn os:

- Y gwrthodwyd cais am asesiad neu adolygiad yn afresymol neu ei fod wedi'i oedi'n afresymol (gweler hefyd y nodyn uchod);
- Y bu'r broses o asesu eich hawliad yn sylweddol ddiffygiol;
- Bod y rheswm dros wrthod cyllid yn afresymegol, yn ddiffygiol neu heb fod yn seiliedig ar dystiolaeth a bod y diffygion hynny'n debygol o fod wedi gwneud y penderfyniad yn un afresymol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all:

- gynnal ei asesiad ei hun o anghenion gofal iechyd;
- eich cynorthwyo i wneud hawliad am gyllid gofal parhaus (ceir mudiadau eraill a allai wneud hyn – gweler 'gwybodaeth bellach' isod);
- dweud wrthych a ddylai cyllid gofal parhaus fod wedi'i ganiatáu ai peidio neu newid penderfyniad y BILl a rhoi cyfarwyddyd iddynt dalu arian gofal parhaus;
- dweud a yw'r meini prawf cymhwyster a ddefnyddir gan y BILl yn anghyfreithlon ai peidio (mater i'r llysoedd benderfynu arno yw hynny).

Materion i gadw mewn cof

Os bydd yr Ombwdsmon yn cytuno a'ch cwyn efallai y bydd yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Iechyd ynghylch yr hyn y dylent ei wneud. Gallai hyn gynnwys cais i gynnal asesiad newydd o anghenion gofal iechyd, neu gynnal panel newydd i ystyried eich apêl.

Nid oes angen i chi wneud eich cwyn i'r Ombwdsmon gan ddefnyddio cyfreithiwr neu unrhyw adfocad arall; mae ei wasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn ddiduedd, a'n nod yw gwneud y broses yr un hawddaf bosibl i achwynwyr ei dilyn.

Gwybodaeth bellach

Efallai yr hoffech ystyried cysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:

Age Cymru – gallant ddarparu gwybodaeth a chyngor. Gallwch gysylltu â hwy dros y ffôn ar 0800 169 65 65 neu ar y rhyngrwyd www.agecymru.org.uk

MIND – gallant ddarparu cymorth a chyngor ar ystod o faterion iechyd meddwl; cysylltwch dros y ffôn ar 02920 395123 neu ar y rhyngrwyd www.mind.org.uk

Cymdeithas Alzheimer – gallant ddarparu cymorth a chefnogaeth. Gallwch gysylltu â hwy ar 02920 4800593 (De Cymru), 01248 671137 (Gogledd Cymru) neu ar y rhyngrwyd www.alzheimers.org.uk

Eich **Cyngor Iechyd Cymuned** lleol (CIC) – gall ddarparu cyngor a chefnogaeth wrth wneud cwyn. Gellir cael manylion cysylltu eich CIC lleol o'ch llyfr ffôn lleol neu drwy wefan Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn www.patienthelp.wales.nhs.uk neu eu llinell gymorth ar 0845 6447814.

Gellir canfod manylion eich Bwrdd Iechyd lleol yn **www.wales.nhs.uk/directory.cfm**

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a diduedd; ni all orchymyn i gyrff cyhoeddus weithredu ar ei argymhellion – ond, yn ymarferol, y maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychwyd arnynt gan yr Ombwdsmon i'w gweld ar ein gwefan. Gweler www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ